Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl256

Amseru: Arferol

Teitl: Dylunio Taflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor 2022/23

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Bydd Mr Llywelyn cyn hir yn cyhoeddi manylion ei Braesept yr Heddlu 2022/23. Bydd y wybodaeth ar gael mewn taflen i'w rhannu gyda phreswylwyr ar draws ardal Dyfed-Powys. Cysylltodd Swyddfa'r Comisiynydd â dylunydd lleol, sydd eisoes wedi gwneud gwaith dylunio i'r Comisiynydd, i ofyn iddynt ddylunio'r daflen. Yn unol â'r 'Canllawiau a Gwybodaeth Caffael Heddlu Dyfed Powys: Gweithdrefnau Caffael - Lefel Gwariant', cadarnheir nad yw'r lefel gwariant sy'n gysylltiedig â'r darn hwn o waith yn cwrdd â'r trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyfynbris gael ei gaffael gan nifer o sefydliadau; dim ond un dyfynbris sydd ei angen. Cafwyd hwn gan y dylunydd lleol a bernir ei fod yn gost-effeithiol ar gyfer y darn hwn o waith.

Argymhelliad: Gofynnir i'r dylunydd lleol, sydd wedi cynhyrchu gwaith dylunio i'r Comisiynydd o'r blaen, ddylunio taflen Praesept yr Heddlu 2022/23 y Comisiynydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/02/2022